

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod, Nos Fawrth y 13eg o Hydref 2009.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Hefina MW Roberts (Cadair), Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry W Owen, D Martin Williams - Talysarn; Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones-Griffith, Ann Vaughan Jones – Penygroes; Eurig Evans – Nebo; T Les Jones – Nantlle.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

Ceisiadau

- 55 Bro Silyn, Talysarn – estyniad ochr deulawr ac estyniad cefn unllawr.
- 15 Tai Nantlle, Nantlle – estyniad cefn deulawr.
- Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes – cau mynediad i gerddwyr ac agor mynedfa newydd i gerddwyr ynghyd a rheiliau llaw a gwaith cysylltiedig. Does dim arwydd yno ar gyfer gyrrwyr, bod plant yn croesi, ac felly byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd fonitro'r sefyllfa a gofyn gwneud rhywbeth i ddangos yn glir i gerbydau bod plant yn croesi.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

- Gwahoddwyd aelodau Gyfarfod Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghaernarfon. Mynychwyd y cyfarfod gan Elwyn Jones-Griffith, Penygroes.
- Cyngor Gwynedd yn adolygu'r rhestr aros am gysgodfannau bws, ac angen gwybod pa leoliadau y dymunai'r Cyngor Cymuned gael llochesi bws newydd. Trafodwyd hyn, a byddwn yn gofyn am loches blastig yn lle'r un gerrig drost y ffordd i Poveys' Penygroes, lloches y ffordd i'r siop chips ym Mhenygroes (lloches gyda tho, cefn a dim blaen), lloches wrth gyffordd ger Ysgol Dyffryn Nantlle ochr Talysarn, a lloches mewn lleoliad ger ysgol Nantlle.
- Cawson gadarnhad y bydd yr arwydd 'Petrol' ar arwydd ffordd Penygroes yn cael ei ddileu.
- Derbyniwyd manylion cais i gofrestru llwybr troed ar y map swyddogol – sef llwybr Chwarel Dorothea. Roedd y Cyngor yn cytuno i gofrestru'r llwybr, ond yn bryderus am ddiogelwch cerddwyr mewn ambell i le. Byddwn yn ymateb i Gyngor Gwynedd, gyda chopi o'r cynllun wedi ei farcio gyda'r manau anniogel.

Arall

- Derbyniodd y Cyngor lythyr gan BT yn cynnig i'r Cyngor yr opsiwn i fabwysiadu'r blwch ffon yn Nebo. Rhoddwyd copi o'r llythyr i Eurig fel ei fod yn gallu gwneud ymholiadau lleol.

Adroddiadau Pentrefi

Roedd y Cyngor wedi archebu bwlbiau cennin pedr ar gyfer pob pentref, a byddwn yn trefnu i'w dosbarthu.

Penygroes – Meinciau o flaen y Neuadd Goffa angen eu peintio, hefyd ar Ffordd Llwyndu, dros y ffordd i orsaf yr heddlu, bolardiau bach angen eu peintio hefyd; Clawdd drain ar hyd yr hen Ffordd Clynnog o'r tro hyd at Pentyrch – angen ei dorri. Traffic ar allt goch – loriau a bysiau – tynnu sylw'r heddlu; Tir ger Amaethwyr Eifionydd – angen mwy o le parcio. Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd eto; Ieuencid yn ymgynnull ar y llwybr tu ol i'r cae pel droed, ac wedi trio rhoi coed ar dan – byddwn yn

cysylltu gyda'r heddlu; Mae offer chwarae newydd wedi ei leoli yng nghae Cwtin, Penygroes – byddwn yn ysgrifennu i ddiolch i Gyngor Gwynedd, ac yn gofyn eto am arwydd mawr 'Dim Cwn' ar gyfer y cae; Byddwn yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn am linellau gwyn ym mynedfa'r garejes ar Ffordd y Sir, Penygroes yn dilyn ail-wynebu'r ffordd.

Mynwentydd

Arolwg Cerrig Beddi – mae dau fedd yn MacPelah, Penygroes yn parhau heb dderbyn sylw – penderfynwyd symud ymlaen a rhoi stanciau tu ol i'r ddwy garreg, wedi eu sicrhau i'r cerrig gyda thap llydan du.

Mae'r Cyngor yn hynod ddiolchgar o'r gwasanaeth gan droseddwyr ifanc – maen't wedi bod yn chwynnu yn St Rhedyw a MacPelah, ac yn help mawr iawn i'r Cyngor gadw'r mynwentydd yn daclus.

Cystadleuaeth

Byddwn yn trefnu **Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig** eto eleni. Penderfynwyd cynnwys categori ychwanegol eleni sef 'siop orau'. Byddwn yn beirniadu ganol fis Rhagfyr.

Penderfynodd y Cyngor yn gyfrannu £50 tuag at goed Nadolig Talysarn a Nantlle.